Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG50442**

Llywodraeth Cymru

# Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025

Asesiad Effaith Integredig – dogfen gryno

Ionawr 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2025
ISBN Digidol - **978-1-83625-600-7**

## CYNNWYS

ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM? ..... 3

Caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru ..... 3

Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 ..... 4

Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025 4

ADRAN 8. CASGLIAD ..... 5

ATODIAD A – RHESTR LAWN O ASESIADAU EFFAITH A CHRYNODEB O GANFYDDIADAU. ..... 9

ATODIAD B - ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB ..... 13

## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

### Diwygiadau ehangach i gaffael cyhoeddus

1. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, mae amryw o newidiadau'n cael eu gwneud i'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn caffael nwyddau a gwasanaethau yn y DU. Mae newid allweddol yn cael ei wneud drwy gyfundrefn gaffael newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU o dan Ddeddf Caffael 2023 ('Deddf 2023'), a fydd yn disodli'r gyfundrefn caffael cyhoeddus gyfredol o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (PCR 2015)[1]. Penderfynodd Gweinidogion Cymru ganiatáu i 'Awdurdodau Contractio Cymru' gael eu cynnwys yn niwygiadau caffael Llywodraeth y DU, ac adlewyrchwyd hyn yn Neddf 2023 a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig gan gynnwys Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024[2].

2. Ar wahân, cyflwynwyd cynigion i newid y ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu caffael yn Lloegr o dan ddarpariaethau yn Neddf Iechyd a Gofal 2022[3] a Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 Llywodraeth y DU. Galluogodd hyn i gaffael gwasanaethau gofal iechyd yn **Lloegr** gael ei ddileu o gwmpas rheolau caffael cyhoeddus cyffredinol o dan PCR 2015; ac i set newydd o reolau gael eu rhoi ar waith yn benodol ar gyfer y gwasanaethau hyn, o dan Reoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023[4] i gyflwyno cyfundrefn newydd a elwir y Gyfundrefn Dethol Darparwyr (PSR).

3. O 1 Ionawr 2024, mae PSR newydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) wedi bod yn gymwys i gaffael 'gwasanaethau gofal iechyd' y GIG yn Lloegr yn unig. Ei nod cyffredinol yw symud i ffwrdd o'r disgwyliad i gynnal cystadleuaeth o dan yr holl amgylchiadau a thuag at system o gydweithio a phartneriaeth; gan uno gwasanaethau gyda'i gilydd ar draws y system iechyd gyfan. Ei nod yw dileu lefelau diangen o dendro cystadleuol, dileu rhwystrau i integreiddio gofal a hyrwyddo datblygiad trefniadau cydweithio sefydlog. Bydd yn rhoi'r hyblygrwydd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn GIG Lloegr a sefydliadau llywodraeth leol yn Lloegr i drefnu gwasanaethau iechyd sy'n hyrwyddo yn y ffordd orau fuddiannau cleifion a gwerth am arian cyhoeddus.

### Caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru

4. Mae gwasanaethau iechyd sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan y GIG yng Nghymru yn cael eu cyflwyno drwy amrywiaeth o fecanweithiau, gan gynnwys trefniadau drwy 'Gontractau o'r GIG i'r GIG' ('Contractau'r GIG')[5] ac mewn sefyllfaoedd lle nad oes gan y GIG yng Nghymru y capasiti mewnol na'r gallu

---

[1] Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (deddfwriaeth.gov.uk)
[2] Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024
[3] Deddf Iechyd a Gofal 2022 (deddfwriaeth.gov.uk)
[4] Rheoliadau Gwasanaethau Gofal Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) 2023 (deddfwriaeth.gov.uk)
[5] Contractau'r GIG fel y'u diffinnir gan Adran 7 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

arbenigol i ddiwallu anghenion cleifion, drwy drefniadau gyda darparwyr annibynnol gan ddefnyddio cytundebau yn ôl y gofyn (gan gynnwys fframweithiau), neu drwy'r gweithdrefnau caffael o dan PCR 2015.

5. Hyd cyflwyno PSR DHSC yn Lloegr, cynhaliwyd caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru a Lloegr drwy gyfundrefn PCR 2015 ac felly ar sail 'chwarae teg'. Fel y cyfryw, mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan y PSR yn Lloegr yn ystumio'r sefyllfa hon ac yn peri risg o ystod o ganlyniadau ymarferol anfwriadol ar gyfer caffael a chomisiynu gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

6. Gallai'r canlyniadau hyn gynnwys:

   i. cyfyngu ar y gallu i gomisiynu gwasanaethau iechyd ar y cyd a manteision cysylltiedig arbedion maint ariannol ac adnoddau;
   ii. cyfyngu ar awydd darparwyr i gyflenwi gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn sgil gorfod cymryd rhan mewn gwahanol gyfundrefnau rheoleiddio caffael ac ymarferion tendro cystadleuol; y posibilrwydd o gynyddu costau a phwysau adnoddau i awdurdodau perthnasol gaffael a denu cyflenwyr o ansawdd uchel yn y dyfodol.

### Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024

7. Byddai methu â chymryd camau i adfer 'chwarae teg' ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru a Lloegr yn golygu bod GIG Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn cymryd rhan mewn gwahanol gyfundrefnau caffael; gallai hyn gynyddu costau, biwrocratiaeth a phwysau adnoddau i'r GIG yng Nghymru, ac effeithio ar y gallu i ddenu cyflenwyr o ansawdd uchel yn y dyfodol.

8. Er mwyn adfer 'chwarae teg', ym mis Chwefror 2023 cyflwynodd Gweinidogion Cymru Ddeddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)[6] ('Deddf HSP') i'r Senedd i geisio pwerau sylfaenol a galluogi gweithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru. Mae'r Ddeddf HSP yn darparu llwyfan deddfwriaethol i sicrhau cydraddoldeb â'r PSR yn Lloegr, gan liniaru'r canlyniadau anfwriadol uchod a rhoi cyfle i weithredu dull mwy hyblyg a chreadigol o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

### Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025

9. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf HSP ym mis Chwefror 2024 gan roi cyfle i gyflwyno cyfundrefn reoleiddio newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru drwy Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025 ('y Rheoliadau'). Mae'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig yn darparu cyfundrefn gaffael bwrpasol ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru, i'w hadnabod fel Cyfundrefn Dethol Darparwyr Cymru, neu PSR Cymru. Bydd y cynigion o dan y PSR Cymru yn gymwys i 'awdurdodau perthnasol' (fel y'u diffinnir o dan Ddeddf HSP, h.y. GIG Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru) ac yn ceisio

[6] Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) (senedd.cymru)

adfer yn fras 'chwarae teg' ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru a Lloegr.

10. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gyfle i gyd-fynd â themâu allweddol a nodir yn 'Cymru Iachach'[7], amcanion polisi ehangach Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru[8], a chyflwyno cyfundrefn fodern sy'n llywodraethu caffael y gwasanaethau hyn yng Nghymru.

11. Cynhaliwyd asesiad effaith integredig llawn i adolygu effeithiau posibl gweithredu'r Rheoliadau. Cyhoeddir adrannau 1 ac 8 o'r asesiad ar wefan Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel crynodeb o'r canfyddiadau.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### Crynodeb

12. Bydd Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025 yn cyflwyno cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd ar gyfer awdurdodau perthnasol yng Nghymru a elwir y Gyfundrefn Dethol Darparwyr Cymru neu PSR Cymru. Bydd y cynigion, lle bo'n briodol, yn ceisio cyd-fynd â chynigion sy'n cael eu cyflwyno gan Gyfundrefn Dethol Darparwyr DHSC. Bydd PSR Cymru yn adfer 'chwarae teg' wrth gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru a Lloegr, gan gyflwyno cyfundrefn gaffael fwy hyblyg a chael gwared ar fiwrocratiaeth ddiangen i hyrwyddo datblygu cydweithrediadau cyflenwyr sefydlog.

13. Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhoi cyfle i gyd-fynd â themâu allweddol a nodir yn 'Cymru Iachach' ac amcanion polisi ehangach Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

14. Mae'r rhestr o asesiadau effaith a gwblhawyd fel rhan o'r ymarfer IIA a chrynodeb o'r canfyddiadau i'w gweld yn **Atodiad A**.

### Sut mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

15. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus 12 wythnos rhwng mis Hydref 2023 a mis Chwefror 2024 i geisio barn rhanddeiliaid ar egwyddorion gweithredol PSR Cymru, ac a ddylai geisio alinio gyda chynigion sy'n cael eu cyflwyno gan PSR DHSC neu wyro oddi wrthynt.

16. Er mwyn cefnogi'r broses ymgynghori, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a swyddogion GIG Cymru gyfres o weithgareddau ymgysylltu wedi'u targedu gydag ystod o randdeiliaid o GIG Cymru, awdurdodau lleol yng Nghymru a sefydliadau'r trydydd sector; i ddarparu trosolwg o'r newidiadau arfaethedig a rhoi cyfle i randdeiliaid ofyn

[7] Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU
[8] Rhaglen lywodraethu | LLYW.CYMRU

cwestiynau a chael eglurhad o agweddau ar y cynigion cyn cyflwyno eu hymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad.

17. Ymhlith grwpiau ac unigolion eraill, cafwyd ymgysylltiad penodol â'r grwpiau canlynol:
    - Arweinwyr caffael, gofal sylfaenol, cyllid a chynllunio GIG Cymru;
    - Arweinwyr caffael awdurdodau lleol;
    - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC);
    - Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC);
    - Cyngres Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru);
    - Rhwydwaith comisiynu'r gwasanaethau cymdeithasol;
    - Anabledd Cymru;
    - Triniaeth Deg i Fenywod Cymru;
    - Bwrdd cynllunio ardal camddefnyddio sylweddau; a
    - Llais ('Corff Llais y Dinasyddion' Cymru).

18. Cafwyd cyfanswm o 34 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o randdeiliaid. Roedd yr adborth yn cynnwys barn ar y canlynol:
    - cymhwyso ac ehangder y rhestr arfaethedig o godau Geirfa Gaffael Gyffredin (CPV) sydd wedi'u cynnwys yn y gyfundrefn gaffael arfaethedig;
    - ehangu, neu leihau, y 'meini prawf sylfaenol' a'r 'meini prawf allweddol' y mae angen eu hystyried pan fydd awdurdodau perthnasol yn dethol darparwyr gwasanaethau iechyd annibynnol;
    - diffiniadau o 'gaffael cymysg', gan gynnwys cymhwyso'r 'prif bwnc' a'r trothwy 'rhesymol wahanadwy';
    - trothwyon ar gyfer 'addasu contractau' a 'newid sylweddol';
    - rôl, cylch gwaith a gweithrediad y 'panel adolygu annibynnol' ar gyfer y gyfundrefn gaffael;
    - tryloywder, monitro a chyhoeddi gwybodaeth o dan y gyfundrefn arfaethedig;
    - cyfnodau a hyd fframwaith;
    - trefniadau pontio a rhoi'r gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig ar waith, gan gynnwys amseriad, hyfforddiant ac ati;
    - cymhwyso'r gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig a'r effaith ar 'gontractau o'r GIG i'r GIG'; ac,
    - integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

19. Mae ymatebion i'r ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi llywio datblygiad y Rheoliadau sy'n sail i PSR Cymru. Mae crynodeb o'r ymatebion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[9]

20. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid wrth i ni weithredu'r Rheoliadau a'r gyfundrefn gaffael newydd.

[9] Caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru | LLYW.CYMRU

**Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol? Sut bydd y cynigion yn sicrhau'r cyfraniadau mwyaf posibl i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu'n osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

**Crynodeb o'r effeithiau cadarnhaol/negyddol**

21. Mae'r **effeithiau cadarnhaol** posibl canlynol wedi'u nodi o ganlyniad i weithredu Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru). Bydd y Rheoliadau'n gwneud y canlynol:

- rhoi cyfle i adnewyddu caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru i gyd-fynd ag amcanion polisi a Rhaglen Lywodraethu[10] Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol;
- cynnal y gallu i ddenu cyflenwyr gwasanaethau iechyd o ansawdd uchel gan ddarparu parhad gwasanaethau iechyd i ddinasyddion Cymru;
- symud oddi wrth dendro cystadleuol gorfodol a allai fod o fudd i fusnesau (darparwyr gwasanaethau iechyd), gan arbed amser ac adnoddau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno tendrau nad ydynt yn arwain at ddyfarnu contract;
- darparu arbedion cost adnoddau i awdurdodau perthnasol nad ydynt yn cynnal ymarferion tendro diangen, gan roi cyfle i ryddhau staff ac adnoddau ariannol y gellid eu defnyddio'n well mewn mannau eraill ar feysydd blaenoriaeth uchel eraill;
- darparu cyfleoedd i awdurdodau perthnasol ymgysylltu â chyflenwyr lleol a negodi â hwy a helpu i ffurfio a chynnal partneriaethau cydweithredol â darparwyr gwasanaethau iechyd annibynnol;
- annog mwy o gydweithio â chyflenwyr, a fydd o fudd i'r trydydd sector gan fod tendro cystadleuol yn cael ei ystyried yn rhwystr i sefydliadau trydydd sector gymryd rhan;
- cynnig dull llai gwrthwynebol o ddyfarnu contractau gyda mwy o dryloywder a monitro a fydd yn cryfhau atebolrwydd a chyfleoedd cydweithio posibl;
- darparu cyfleoedd i gynnwys meini prawf gwerthuso gwell a thargedau i gyflenwyr leihau effeithiau ar y newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio fel rhan o'r fanyleb a rheoli contractau, gan gynyddu cyfleoedd i ymgysylltu â chyflenwyr a fydd yn ymrwymo'n rhagweithiol i leihau effeithiau ar newid yn yr hinsawdd; ac,
- atgyfnerthu rhwymedigaethau i awdurdodau perthnasol roi sylw i Ddatganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS)[11], sy'n gosod y weledigaeth strategol ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan helpu i gyflawni nodau llesiant sy'n cael eu ceisio o dan Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[12].

22. Nodwyd yr **effeithiau negyddol** canlynol posibl:

- gellid ystyried bod rhai prosesau gwneud penderfyniadau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau yn unigryw ac yn annheg i ddarparwyr, yn enwedig mewn achosion lle mae contractau presennol yn cael eu 'cario drosodd', gan ddileu cyfleoedd i ddarparwyr wneud cais am dendrau. Bydd mesurau yn y Rheoliadau

[10] Rhaglen lywodraethu | LLYW.CYMRU
[11] Datganiad polisi caffael Cymru - diweddariad | LLYW.CYMRU
[12] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion [HTML] | LLYW.CYMRU

yn ceisio lliniaru'r mater hwn, drwy sicrhau bod awdurdodau perthnasol yn 'agor' fframweithiau yn rheolaidd;

- dryswch posibl ymhlith awdurdodau perthnasol ynghylch y gyfundrefn gaffael fwyaf priodol i gaffael gwasanaethau iechyd. Bydd hyn yn cael ei liniaru drwy nodi'n glir gwmpas PSR Cymru yn y Rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig a darparu hyfforddiant i awdurdodau perthnasol;
- efallai y bydd rhywfaint o faich gweinyddol tymor byr ar awdurdodau perthnasol wrth iddynt addasu prosesau a gweithdrefnau mewnol i fodloni gofynion y Rheoliadau; a
- bydd methu â gweithredu PSR Cymru yn arwain at awdurdodau perthnasol yn caffael gwasanaethau iechyd o dan Ddeddf Caffael 2023. Byddai hyn yn arwain at geisio contractau trwy ymarferion tendro cystadleuol a'r goblygiadau adnoddau angenrheidiol i ddarparwyr wrth baratoi a chyflwyno tendrau cystadleuol ar gyfer contractau. Gallai cyflenwi gwasanaethau iechyd yng Nghymru ddod yn llai deniadol i ddarparwyr oherwydd yr angen i gymryd rhan mewn gweithdrefnau tendro cystadleuol. Gallai hyn fod â goblygiadau cost/adnoddau o ran costau cynyddol i gyflenwyr a mwy o adnoddau staff i gaffael a denu cyflenwyr o ansawdd uchel yn y dyfodol.

**Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

23. Mae gofyniad o dan y Ddeddf HSP i sicrhau bod y Rheoliadau'n cefnogi tryloywder, tegwch, gwirio cydymffurfiaeth, a rheoli gwrthdaro buddiannau. O'r herwydd, ceir darpariaethau adrodd manwl o fewn y Rheoliadau i gyflawni'r nodau hyn, a fydd yn cynyddu'r gofynion adrodd ar awdurdodau perthnasol er mwyn dangos tryloywder ar benderfyniadau caffael sy'n cael eu gwneud o dan PSR Cymru.

24. Mae gofyniad o dan y Ddeddf HSP i adolygu gweithrediad y Rheoliadau a chyhoeddi casgliadau'r adolygiad o fewn 5 mlynedd ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym.

## ATODIAD A – RHESTR LAWN O ASESIADAU EFFAITH A CHRYNODEB O GANFYDDIADAU.

| Asesiad Effaith | Oes / Nac oes | Crynodeb |
|---|---|---|
| Hawliau Plant | Nac oes | Mae'r Rheoliadau'n sail i'r prosesau a'r gweithdrefnau technegol sy'n llywodraethu caffael gwasanaethau iechyd gan awdurdodau perthnasol yng Nghymru ac maent wedi'u hystyried yng ngoleuni hawliau plant, Strategaeth Tlodi Plant Cymru[13] ac effaith ar Erthyglau'r CCUHP.<br><br>Ar ôl adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, ystyrir na fydd y Rheoliadau yn effeithio'n uniongyrchol ar hawliau plant, ac nid oes ychwaith unrhyw gysylltiadau penodol rhwng y cynigion a Strategaeth Tlodi Plant Cymru. |
| Cydraddoldeb | Oes* | Asesiad effaith llawn yn Atodiad B |
| Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol | Oes | Bydd y Rheoliadau yn sail i brosesau caffael rhagnodol a thechnegol ar gyfer awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Ystyrir bod cynigion yn annhebygol o ychwanegu at y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol na gwaethygu anghydraddoldeb o ran canlyniadau. |
| Prawfesur Gwledig | Oes | Ystyrir na fydd y Rheoliadau yn cael fawr o effaith gadarnhaol na negyddol uniongyrchol ar gymunedau gwledig ac unigolion sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau gwledig, ond gallant gael effaith gymedrol anuniongyrchol ar gymunedau gwledig ac unigolion sydd wedi'u lleoli |

[13] Strategaeth tlodi plant: adroddiad cynnydd 2022 [HTML] | LLYW.CYMRU

| | | |
|---|---|---|
| | | mewn lleoliadau gwledig mewn perthynas â hygyrchedd gwasanaethau, yn gadarnhaol ac yn negyddol. |
| Iechyd | Nac oes | Mae'r cynigion wedi'u hystyried ochr yn ochr â phroses sgrinio Uned cymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) ac yn erbyn y Rhestr Wirio Penderfynyddion Iechyd i ddeall a allai'r cynigion arfaethedig effeithio ar rai grwpiau penodol o’r boblogaeth.<br><br>Dylai unrhyw newidiadau o ran gweithredu caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru sicrhau y bydd pob grŵp poblogaeth yn cadw mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Ni ragwelir y bydd unrhyw newid i'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd newydd yn cael eu caffael o dan y Rheoliadau arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar grwpiau penodol sy'n gysylltiedig â rhyw/rhywedd, grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran, grwpiau sy'n wynebu risg o wahaniaethu neu anfantais gymdeithasol, grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm neu grwpiau daearyddol.<br><br>Mae gan unrhyw grwpiau neu bobl sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru yr hawl i gael gofal a chymorth gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ni fydd yr hawl hon yn cael ei heffeithio gan newidiadau arfaethedig i'r gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. |
| Preifatrwydd | Oes | Mae'r Asesiad Effaith ar Breifatrwydd/Diogelu Data wedi'i gwblhau fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig hwn i ystyried sut y bydd y |

| | | |
|---|---|---|
| | | Rheoliadau arfaethedig yn effeithio ar breifatrwydd. Penderfynwyd nad oedd angen Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA. |
| Y Gymraeg | Oes | Mae'r asesiad o effaith y cynigion ar y Gymraeg wedi'i gwblhau fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig hwn. Pennir nad fydd y Rheoliadau arfaethedig a'r gyfundrefn gaffael newydd yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar themâu 1 a 3 o'r strategaeth Cymraeg 2050. Dylai'r cynigion gefnogi thema 2 y strategaeth: cynyddu'r defnydd o’r Gymraeg. |
| Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Oes | Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AER) wedi'i gwblhau i gyd-fynd â'r Rheoliadau arfaethedig. |
| Cyfiawnder | Nac oes | Ni fydd y Rheoliadau yn diwygio nac yn creu sancsiynau sifil na chosbau penodedig newydd, ac ni fyddant ychwaith yn creu troseddau newydd, yn ymestyn neu'n diwygio troseddau presennol, nac yn darparu hawliau newydd i apelio neu ymgeisio a fydd yn effeithio ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder.<br><br>O'r herwydd, ystyrir nad oes angen Asesiad Effaith ar Gyfiawnder newydd nac ymgynghoriad â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer y Rheoliadau, yn ychwanegol at yr hyn a gwblhawyd a'i gyflwyno ar gyfer y Ddeddf HSP. |

| | | |
|---|---|---|
| Bioamrywiaeth | Oes* | Ar ôl ystyried y cynigion yn erbyn tair blaenoriaeth y Polisi Adnoddau Naturiol, ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol. Felly, ni chynhaliwyd asesiad effaith llawn.<br><br>Er mwyn cydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth wedi ei gwblhau. Pennir nad oes cyfle uniongyrchol i integreiddio mesurau bioamrywiaeth i Reoliadau'r dyfodol ar gyfer diwygio caffael gwasanaethau iechyd gan eu bod yn sail i brosesau caffael technegol. Bydd cyfeiriadau at fioamrywiaeth yn parhau i gael eu cynnwys fel rhan o ymrwymiadau i 'awdurdodau perthnasol' fodloni ymrwymiadau unigol mewn perthynas â datgarboneiddio a bioamrywiaeth. |
| Newid yn yr Hinsawdd | Nac oes | AMHERTHNASOL |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Nac oes | AMHERTHNASOL |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Nac oes | AMHERTHNASOL |
| Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | Nac oes | AMHERTHNASOL |

## ATODIAD B - ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Cefndir | | Mae Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) ('y Rheoliadau') yn dechnegol eu natur i raddau helaeth ac maent yn cyfeirio at reoleiddio sut mae caffael cyhoeddus yn cael ei wneud gan 'awdurdodau perthnasol'[14] yng Nghymru.<br><br>Bydd y Rheoliadau yn sail i gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd ar gyfer Cymru, a elwir y Gyfundrefn Dethol Darparwyr Cymru neu PSR Cymru. Bydd y Rheoliadau'n cael eu cefnogi gan ganllawiau statudol sy'n nodi egwyddorion gweithredol y gyfundrefn newydd.<br><br>Bydd PSR Cymru yn ceisio symud i ffwrdd o sefyllfa o dendro cystadleuol diofyn (fel y nodir yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015)[15] ac yn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau | Dylai cyflwyno cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru liniaru yn erbyn yr anallu posibl i gael mynediad at rai gwasanaethau iechyd o ganlyniad i'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan PSR DHSC yn Lloegr. |

[14] 'Awdurdodau perthnasol' fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024
[15] [Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (deddfwriaeth.gov.uk)]

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | perthnasol ymgymryd â 'dyfarniad uniongyrchol' o gontractau a'u 'cario drosodd' i ddarparwyr gwasanaethau iechyd, lle nad oes unrhyw fudd y gellir ei gyfiawnhau i fynd allan yn gystadleuol i'r farchnad. Er enghraifft, mewn amgylchiadau lle mae'r darparwr gwasanaeth presennol yn darparu'r gwerth ariannol a'r gwerth gorau i gleifion, neu os oes dewis cyfyngedig o un darparwr a ffefrir. | |
| Cyffredinol | Niwtral | Bydd y gallu i weithredu cyfundrefn gaffael fwy hyblyg o dan PSR Cymru o fudd i bob dinesydd; gan ganiatáu sefyllfa lle gall contractau gael eu 'cario drosodd' gyda darparwr presennol lle mae trefniant presennol yn gweithio'n dda.<br><br>Dylai'r trefniant hwn olygu llai o darfu ar gleifion, yn enwedig felly i'r cleifion hynny lle mae perthynas hirsefydlog un i un rhwng claf a gofalwr ac mewn amgylchiadau lle byddai gwneud newidiadau diangen i'r gofalwr yn amharu ar y claf. Dylai'r hyblygrwydd hwn fod o fudd arbennig i'r unigolion a'r cleifion hynny sydd â nodweddion gwarchodedig a allai ei chael hi'n anoddach ailsefydlu perthnasoedd â gofalwyr a darparwyr gwasanaethau iechyd.<br><br>I'r gwrthwyneb, gall darparu gallu i 'gario contractau drosodd' arwain at barhau â gwasanaethau nad ydynt yn gweithio cystal ag y dylent neu y gallent, heb her na mewnbwn | Mae angen ystyried sut mae awdurdodau perthnasol yn defnyddio'r meini prawf allweddol sydd wedi'u cynnwys yn PSR Cymru i ddethol darparwyr, ac yn arbennig agor cyfleoedd i'r trydydd sector a grwpiau a darparwyr lleol a llai sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr wneud cais am wasanaethau a'u darparu.<br><br>Bydd dull o'r fath yn cefnogi'r economi leol a sylfaenol ac yn ei dro o fudd i gadwyni cyflenwi lleol; bydd hyn wedyn yn cyfrannu at nodau amgylcheddol a chynaliadwyedd fel rhan o rwymedigaethau awdurdodau perthnasol i fodloni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y meini prawf allweddol cynhwysiant ynghylch 'gwerth cymdeithasol' yn cyfrannu at gyflawni'r rhwymedigaethau hyn.<br><br>Dylai'r gyfundrefn, lle bo modd, gynnwys mesurau i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn nodi a herio tuedd anymwybodol ac annhegwch strwythurol mewn lleoliadau gofal iechyd. Gellid cyflawni hyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gan ddefnyddwyr y gwasanaeth. Gallai hyn arwain at eithrio neu dangynrychioli grwpiau penodol, neu ddemograffeg benodol, neu eu tangynrychioli.<br><br>Gall yr hyblygrwydd i ymgymryd â chontractau dyfarnu uniongyrchol hefyd ddenu mwy o ddarparwyr trydydd sector a mwy o ddarparwyr lleol llai, dan arweiniad defnyddwyr, a allai gael eu heithrio a'u difreinio o ymarferion caffael cyhoeddus presennol o ganlyniad i ddiffyg adnoddau i gynnig am gontractau. Efallai y bydd partneriaid trydydd sector hefyd mewn sefyllfa well i ddarparu elfennau llai prif ffrwd a mwy penodol o wasanaethau iechyd, fel pecynnau iechyd a lles holistaidd. | drwy sicrhau bod awdurdodau perthnasol yn ceisio cofnodi gwybodaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd fel rhan o wiriadau cyn cymhwyso safonol ar ddarparwyr gwasanaethau.<br><br>Gall cario contractau gwasanaeth iechyd drosodd o dan PSR Cymru hefyd gefnogi modelau cyllido tymor hwy, gan arwain at lefelau uwch o gadw staff ymhlith darparwyr a sicrwydd o ran parhad gwasanaethau i gleifion a defnyddwyr terfynol.<br><br>Dylai awdurdodau perthnasol sicrhau bod penderfyniadau caffael a wneir o dan PSR Cymru yn mynd ati i atal a lleihau anghydraddoldebau iechyd trwy gynnwys y gofyniad hwn fel maen prawf allweddol wrth ddethol darparwyr.<br><br>Mae'n bwysig bod awdurdodau perthnasol yn gweithredu mewn modd gweladwy a hygyrch i ddefnyddwyr gwasanaethau godi pryderon. Awgrymir y dylai awdurdodau perthnasol ystyried priodoldeb ymgysylltu â chleifion (yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchodedig) wrth ddewis darparwyr gwasanaethau iechyd.<br><br>Gellir defnyddio Llais (Corff Llais Dinasyddion Cymru)[16] fel modd o fonitro barn cleifion ar ddarparwyr gwasanaethau. Dylai'r canllawiau statudol sy'n nodi egwyddorion gweithredol PSR Cymru amlinellu rhwymedigaethau |

[16] Llais Cymru \| Llais

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | awdurdodau perthnasol i ystyried argymhellion Llais. |
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Niwtral | Dylai PSR Cymru geisio cyrraedd y nod o 'Cymru Iachach'[17] drwy sicrhau bod gan bobl o bob oed fynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. | Dylai cyflwyno PSR Cymru liniaru yn erbyn unrhyw anallu posibl i gael mynediad at rai gwasanaethau iechyd o ganlyniad i'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan PSR DHSC yn Lloegr.<br><br>Atgoffir awdurdodau perthnasol a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru o'u dyletswyddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a phobl hŷn yn Fframwaith Cynllunio'r GIG.[18] Mae'r fframwaith hwn wedi'i ategu gan ystod o ddata, strategaethau Llywodraeth Cymru a dogfennau canllaw sy'n ymwneud â'r grwpiau hyn o bobl. Mae'r rhain yn cynnwys y Cynllun Gweithredu[19] ar gyfer Dementia, Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023 a Rhaglen Plant Iach Cymru[20]. Dylai PSR Cymru gryfhau'r gofynion i gyflawni'r rhwymedigaethau o dan y polisïau hyn.[21] |

[17] Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU
[18] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion [HTML] | LLYW.CYMRU
[19] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion [HTML] | LLYW.CYMRU
[20] Trosolwg o'r Rhaglen Plant Iach Cymru (llyw.cymru)
[21] A-healthier-wales-equality-impact-assessment.pdf

| | | | |
|---|---|---|---|
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi yn anfwriadol, neu y gellid ei ddefnyddio i ddileu yn rhagweithiol, y rhwystrau sy'n analluogi pobl â gwahanol fathau o amhariadau) | Niwtral | O ganlyniad i newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan PSR DHSC yn Lloegr, mae'n bosibl y bydd y gallu i gael mynediad at gyflenwyr gwasanaethau iechyd yng Nghymru, eu denu a'u cadw yn cael ei effeithio'n anfwriadol.<br><br>Dylai PSR Cymru adlewyrchu nod Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2022 (Deddf SPPP[22]) i hyrwyddo gwaith teg, gan sicrhau bod hawliau gweithwyr yn cael eu diogelu gan gynnwys gweithwyr anabl. Yn ogystal, bydd nod y Ddeddf SPPP o sicrhau caffael cymdeithasol gyfrifol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus osod amcanion yn erbyn nodau llesiant, a fydd yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Er enghraifft, mynediad pobl anabl at wasanaethau. | Dylai PSR Cymru liniaru yn erbyn anallu posibl i gael mynediad at rai gwasanaethau iechyd o ganlyniad i'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan PSR DHSC yn Lloegr.<br><br>Mae'n ofynnol i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gadw at ystod eang o bolisïau Llywodraeth Cymru a nodir mewn sawl strategaeth a dogfen ganllaw sy'n ymwneud ag amhariadau penodol a/neu gyflyrau iechyd hirdymor.<br><br>Mae'r rhain yn cynnwys:<br><br>• Law yn Llaw at Iechyd Meddwl[23],<br>• Gweithredu ar Anabledd[24],<br>• Y Cynllun Gweithredu[25]Strategol ar Anabledd Dysgu,<br>• Cynllun[26]Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig,<br>• Yr adroddiad [27]'Drws ar glo' , a<br>• Cynllun Gweithredu Hawliau Anabledd y Dyfodol<br><br>Ni fydd y rhwymedigaethau i awdurdodau perthnasol gyflawni'r polisïau presennol hyn yn newid o ganlyniad i weithredu PSR Cymru. |

[22] Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 | deddfwriaeth.gov.uk)
[23] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-iechyd-meddwl-2019-i-2022.pdf
[24] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/gweithredu-ar-anabledd-yr-hawl-i-fywn-annibynnol-fframwaith-ar-cynllun-gweithredu.pdf
[25] Cynllun Gweithredu Strategol ar Anabledd Dysgu 2022 i 2026 | LLYW.CYMRU
[26] diweddariad-or-cynllun-gweithredu-strategol-ar-gyfer-anhwylderaur-sbectrwm-awtistig.pdf (llyw.cymru)
[27] Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19 | LLYW.CYMRU

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhyw a phobl Drawsryweddol) | Niwtral | Nid oes unrhyw effeithiau penodol canfyddedig ar bobl drawsryweddol na'r rhai sy'n newid rhyw, y tu hwnt i'r rhai a nodwyd mewn rhannau eraill o'r asesiad hwn.<br><br>Mae awdurdodau perthnasol yn darparu gwasanaethau iechyd i unigolion trawsryweddol yn unol â pholisïau a chanllawiau Llywodraeth Cymru e.e. y Cynllun Gweithredu LHDTC [28] | Mae'r codau geirfa gaffael gyffredin (CPV) 'gwasanaethau iechyd' hollgynhwysol yn y Rheoliadau sy'n sail i'r gyfundrefn newydd yn darparu cwmpas eang i gynnwys cyflyrau sy'n fwy cyffredin mewn pobl sydd wedi ailbennu eu rhywedd (os nad ydynt wedi'u cynnwys fel CPV penodol). |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Niwtral | Nid oes unrhyw effeithiau penodol canfyddedig ar feichiogrwydd a mamolaeth, y tu hwnt i'r rhai a nodwyd mewn rhannau eraill o'r asesiad hwn.<br><br>Mae awdurdodau perthnasol yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal i rieni beichiog a rhieni newydd yn unol â pholisïau a chanllawiau Llywodraeth Cymru e.e. Gofal Mamolaeth yng Nghymru[29] a Rhaglen[30]Plant Iach Cymru. Mae'n annhebygol y bydd y canllawiau a'r polisïau sydd ar waith ar hyn o bryd yn cael eu heffeithio gan weithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru.[31] | Mae'r codau geirfa gaffael gyffredin (CPV) 'gwasanaethau iechyd' hollgynhwysol yn y Rheoliadau sy'n sail i'r gyfundrefn newydd yn darparu cwmpas eang i gynnwys cyflyrau sy'n fwy cyffredin ymhlith menywod beichiog (os nad ydynt wedi'u cynnwys fel CPV penodol). |

[28] Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru (llyw.cymru)
[29] gofal-mamolaeth-yng-nghymru-gweledigaeth-5-mlynedd-ar-gyfer-y-dyfodol-2019-2024.pdf (llyw.cymru)
[30] Trosolwg o'r Rhaglen Plant Iach Cymru (llyw.cymru)
[31] Cymru Iachach Llywodraeth Cymru - asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Dylai awdurdodau perthnasol o dan y gyfundrefn gaffael newydd geisio adlewyrchu nodau'r Ddeddf SPPP; hyrwyddo gwaith teg, a allai gael effaith gadarnhaol ar rieni beichiog a rhieni newydd sy'n fwy tebygol o fod yn destun gwahaniaethu yn y gweithlu.[32] | |
| Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr lloches a Ffoaduriaid) | Niwtral | **Tarddiad Cenedlaethol**<br><br>Mae gan unrhyw bobl sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru yr hawl i gael gofal a chymorth gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ble bynnag fo'u tarddiad cenedlaethol. Ni fydd yr hawl hon yn cael ei heffeithio gan weithredu cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru.<br><br>**Lleiafrifoedd Ethnig**<br><br>Ni fydd unrhyw newidiadau i gaffael y gwasanaeth iechyd yn effeithio ar unigolion oherwydd eu bod yn lleiafrif ethnig gan y bydd disgwyl i awdurdodau perthnasol fodloni eu dyletswyddau cydraddoldeb presennol yn y sector cyhoeddus.<br><br>Dylid ystyried sicrhau bod y gyfundrefn arfaethedig newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer | Dylai cyflwyno PSR Cymru liniaru yn erbyn unrhyw anallu posibl i gael mynediad at rai gwasanaethau iechyd o ganlyniad i'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan PSR DHSC yn Lloegr.<br><br>Ni ddylid cyfyngu mynediad at wasanaethau ar gyfer pob grŵp ac unigolyn trwy gyflwyno PSR Cymru.<br><br>Mae'r codau geirfa gaffael gyffredin (CPV) 'gwasanaethau iechyd' hollgynhwysol yn y Rheoliadau sy'n sail i'r gyfundrefn newydd yn darparu cwmpas eang i gynnwys cyflyrau sy'n fwy cyffredin ymhlith lleiafrifoedd ethnig (os nad ydynt wedi'u cynnwys fel CPV penodol). |

[32] Y diweddaraf ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus | LLYW.CYMRU

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyflyrau sy'n fwy cyffredin mewn lleiafrifoedd ethnig.<br><br>**<u>Sipsiwn a Theithwyr</u>**<br><br>Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd ddilyn canllawiau gweithredu polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr – Teithio i Iechyd Gwell[33].<br><br>**<u>Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid</u>**<br><br>Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd ddilyn canllawiau gweithredu polisi Llywodraeth Cymru ar y ddarpariaeth Iechyd a lles ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches[34]. Ni fydd rhwymedigaethau i fodloni'r gofynion hyn yn newid o ganlyniad i gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru.<br><br>**<u>Mudwyr</u>**<br><br>Mae gan unrhyw grwpiau neu bobl sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru yr hawl i gael gofal a chymorth gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ni fydd rhwymedigaethau i fodloni'r gofynion hyn yn newid o ganlyniad i gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd i Gymru. | |

[33] teithio-i-iechyd-gwell.pdf (llyw.cymru)
[34] darpariaeth-iechyd-a-llesiant-i-ffoaduriaid-a-cheiswyr-lloches_0.pdf (llyw.cymru)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Crefydd, cred a dim cred | Niwtral | Ni fydd newidiadau i gaffael gwasanaethau iechyd yn effeithio'n andwyol ar unigolion oherwydd eu crefydd neu eu credoau. Ni fydd yn effeithio ar ddyletswydd cydraddoldeb bresennol y sector cyhoeddus y mae awdurdodau perthnasol yn ddarostyngedig iddi ar hyn o bryd mewn perthynas â chrefydd. | AMHERTHNASOL |
| Rhyw / Rhywedd | Niwtral | Ni fydd newidiadau i gaffael gwasanaethau iechyd yn effeithio'n andwyol ar unigolion oherwydd eu rhyw, ac mae'n ofynnol o hyd i awdurdodau perthnasol gydymffurfio â dyletswyddau cydraddoldeb presennol y sector cyhoeddus mewn perthynas â rhywedd. | Bydd y codau geirfa gaffael gyffredin (CPV) 'gwasanaethau iechyd' hollgynhwysol yn y Rheoliadau sy'n sail i'r gyfundrefn newydd yn darparu cwmpas eang i gynnwys cyflyrau sy'n fwy cyffredin ymhlith gwrywod a benywod (os nad ydynt wedi'u cynnwys fel CPV penodol).<br><br>Dylai awdurdodau perthnasol roi sylw dyladwy i strategaethau fel y Datganiad Ansawdd ar gyfer iechyd menywod a merched [35] a mentrau penodol ynghylch gwella iechyd dynion. |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Niwtral | Ni fydd newidiadau i gaffael gwasanaethau iechyd yn effeithio'n andwyol ar unigolion oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, gyda gofyniad o hyd i awdurdodau perthnasol gydymffurfio â dyletswyddau cydraddoldeb presennol y sector cyhoeddus mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol. | Mae'r codau geirfa gaffael gyffredin (CPV) 'gwasanaethau iechyd' hollgynhwysol yn y Rheoliadau sy'n sail i'r gyfundrefn newydd yn darparu cwmpas eang i gynnwys cyflyrau sy'n fwy cyffredin ymhlith grwpiau LHDTC+ (os nad ydynt wedi'u cynnwys fel CPV penodol). |

[35] Y Datganiad Ansawdd ar gyfer iechyd menywod a merched [HTML] | LLYW.CYMRU

| | | | |
|---|---|---|---|
| Priodas a phartneriaeth sifil | Niwtral | Ni fydd newidiadau i gaffael gwasanaethau iechyd yn effeithio'n andwyol ar unigolion oherwydd eu statws priodasol, gyda gofyniad o hyd i awdurdodau perthnasol gydymffurfio â dyletswyddau cydraddoldeb presennol y sector cyhoeddus mewn perthynas â statws priodasol. | AMHERTHNASOL |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Niwtral | Gweler sylwadau uchod mewn perthynas ag effeithiau ar 'oedran'. | Mae'r codau geirfa gaffael gyffredin (CPV) 'gwasanaethau iechyd' hollgynhwysol yn y Rheoliadau sy'n sail i'r gyfundrefn newydd yn darparu cwmpas eang i gynnwys cyflyrau sy'n fwy cyffredin ymhlith plant a phobl ifanc hyd at 18 oed (os nad ydynt wedi'u cynnwys fel CPV penodol). |
| Aelwydydd incwm isel | Niwtral | Mae lefelau isel o incwm aelwyd yn gysylltiedig â mwy o anhwylderau iechyd meddwl a datblygu clefydau cronig fel clefyd y galon, canser a diabetes. Mae potensial hefyd ar gyfer 'anfantais groestoriadol', i bobl sy'n ymgorffori rhai nodweddion gwarchodedig ac sy'n profi risg uwch o dlodi, sydd yn ei dro yn fwy tebygol o gael eu gwthio i'r cyrion/eu hallgau o ganlyniad, gan arwain at brofiadau a chanlyniadau iechyd anghyfartal.<br><br>Os rhwystrir mynediad at wasanaethau iechyd, gallai gael effaith negyddol ar yr unigolion hyn. | Dylai cyflwyno PSR Cymru liniaru yn erbyn anallu posibl i gael mynediad at wasanaethau iechyd penodol o ganlyniad i'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan PSR DHSC yn Lloegr. |

## 2. Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? *(Cyfeiriwch at bwynt 1.4 y Canllawiau EIA i gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig).*

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| | Niwtral | Ni fydd cyflwyno PSR Cymru yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar hawliau dynol pobl.<br><br>Mae canllawiau penodol gan Lywodraeth Cymru ar y maes hwn y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau perthnasol, gadw atynt.<br><br>Er enghraifft, mae gan GIG Cymru ddyletswydd i gydymffurfio â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi[36]. Mae'r Cod yn cefnogi datblygiad cadwyni cyflenwi mwy moesegol i ddarparu contractau ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n derbyn arian cyhoeddus. | Ni fydd y gofyniad i awdurdodau perthnasol gydymffurfio â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi yn cael ei effeithio gan weithredu PSR Cymru. |

[36] Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi: Cod ymarfer, arweiniad a hyfforddiant | LLYW.CYMRU

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae Datganiad Cyflogaeth Foesegol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PGCG) yn nodi: *'Mae PGCG yr un mor ymroddedig i sicrhau bod gweithgarwch caffael ar ran GIG Cymru yn cael ei wneud mewn ffordd foesegol. Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr o fewn y cadwyni cyflenwi y byddwn yn cyrchu ein nwyddau a'n gwasanaethau drwyddynt yn cael eu trin yn deg, yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.*<br><br>*Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod ein sefydliad ac unrhyw rannau o'n cadwyn gyflenwi yn cydymffurfio â phob elfen o'r Cod Ymarfer gan gynnwys:*<br><br>• *Caethwasiaeth fodern a cham-drin hawliau dynol;*<br><br>• *Cosbrestru;*<br><br>• *Hunangyflogaeth ffug;*<br><br>• *Defnydd annheg o gynlluniau ymbarél a hunangyflogaeth ffug; a*<br><br>• *Thalu'r cyflog byw.*[37] | |

[37] PGCG – Datganiad Cyflogaeth Foesegol

## 3. Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir

Mae'r Rheoliadau hyn a'r canllawiau statudol yn dechnegol i raddau helaeth, gan reoleiddio sut y mae caffael cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn cael ei gynnal, felly nid oes unrhyw effeithiau canfyddedig pellach boed yn gadarnhaol neu'n negyddol ar Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir yn y meysydd canlynol:

- Preswylio – yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n gysylltiedig â phreswylio: hawliau ymadael a mynediad, ceisiadau am breswyliad, cyfyngiadau ar hawliau mynediad a phreswylio;
- Cydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol – cydnabyddiaeth barhaus o gymwysterau proffesiynol a gafwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);
- Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd
- Triniaeth gyfartal – mae hyn yn cynnwys peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;
- Hawliau gweithwyr - Mae gan weithwyr a phobl hunangyflogedig a gwmpesir o dan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion yr un hawliau i bob pwrpas ag a oedd ganddynt pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu ar sail eu cenedligrwydd, a'r hawl i gael triniaeth gyfartal â gwladolion y DU.